***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1314 (Cy. 264)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Rhagfyr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *13 Rhagfyr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ionawr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 80(2), 88(6), (8A)(a) ac (c), (8B)(b) ac (8D), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Ar yr adeg y gwneir y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn ystyried, at ddibenion adran 88(8A)(c) o'r Ddeddf honno, fod y coronafeirws yn glefyd pandemig.

(**1**) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("y Ddeddf") am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations", sy'n berthnasol i'r pwerau sy'n cael eu harfer. Diwygiwyd adran 80 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adrannau 220(8) a 213(7). Diwygiwyd adran 88 gan Ddeddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017 (p. 23), adran 2 a chan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), adran 161(2).